

## Ysgol Gynradd Lakeside: Cynllun Teithio Llesol Ardal B – Ontario Way

### Adroddiad Ymgynghori

**Rhif Project: CO18108**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynllun uchod rhwng 22/02/2018 a 22/03/2018.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol os oedd modd.

O'r 250 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy a'r 9 hysbysiad safle a godwyd ar y safle, derbyniwyd 68 o ymatebion unigol parthed Cynllun B.

3 Sydd yn cefnogi'r cynllun, rhoddodd rhai sylwadau/awgrymiadau ychwanegol  
65 Sydd yn anghytuno â'r cynigion

Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi'u crynhoi mewn ysgrifen *italig* isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### Argymhelliad

**Yn sgil yr isod, cynigir PEIDIO Â bwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun fel yr amlinellir yn y cynllun ymgynghori.**

**Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyngorwyr Lleol mae'r cynigion wedi'u diwygio a chaiff ymgynghoriad newydd ei gynnal ar y cynigion diwygiedig.**

### Materion yn ymwneud â'r Unffordd

*"Gallai'r cynnig unffordd yn ychwanegu at yr anhrefn. Bydd gwneud y ffordd o Ontario Way i Torrens Drive yn un unffordd yn cynyddu cyflymderau ar y darn hwnnw o ffordd"*

*"Felly mae cosbi'r gymdogaeth gyfan trwy roi system unffordd ar waith yn ymddangos yn annheg iawn, heb sôn am y gost gysylltiedig ddiangen."*

*"Rwy'n gwrthwynebu'r system 'Unffordd' yn llwyr"*

*"Mae'r arian gan Gynulliad Cymru ar gyfer TEITHIO LLESOL felly dyna'r hyn y dylai'r cynllun yn ei ddarparu. Ni fydd system unffordd yn gwneud hyn. Bydd yn gwahardd unrhyw feicio o Lakeside Drive i fyny i Woolaston Ave (felly mae hynny yn fy stopio rhag beicio i ac o'r dref)"*

*"Rwy'n ysgrifennu i wrthwynebu'n gryf y system unffordd arfaethedig ar Winnipeg Drive."*

*"byddai system unffordd yn gyfleus iawn i bob preswlydd"*

*“Bydd hyn yn arwain yn anochel at fwy o draffig ar Winnipeg Drive mewn ffordd sy'n gymharol dawel y tu allan i oriau dechrau a gorffen ysgol, ac rwy'n gwrthwynebu'r syniad hwn yn llwyr.”*

*“Rwyf yn erbyn y cynnig system Unffordd yn Winnipeg Drive a Woolaston Avenue yn llwyr.”*

*“Rwy'n ysgrifennu i WRTHWYNEBU'N GRYF IAWN y cynllun hwn.”*

*“Rydym yn nodi y bydd system unffordd sy'n rhedeg ar hyd pen isaf Woolaston Avenue, i'r dwyrain o le mae'n cwrdd â Torrens Drive, i ochr yr ysgol, yn ei hanfod yn atal mynediad i gerbydau sy'n teithio o Lyn Parc y Rhath/Lakeside Drive i'r dwyrain (o'r chwith i'r dde) ar hyd Woolaston Avenue y tu hwnt i'r gyffordd â Torrens Drive.”*

*“Mae system unffordd ond yn cosbi preswylwyr lleol trwy gyfyngu ar fynediad i'w cartrefi”*

*Mae cyflwyno systemau unffordd a fyddai'n effeithio'n niweidiol ar breswylwyr 100% o'r amser i fynd i'r afael â phroblem a achosir gan sawl cerbyd yn ystod cyfnod o amser byr iawn ar ddiwrnodau ysgol – sy'n cyfateb i dim ond 7% o'r preswylwyr lleol sy'n defnyddio'r ffordd ar gyfartaledd yn ystod y dydd – yn fesur afresymol.”*

O'r enghreifftiau uchod, sydd ond yn ddetholiad o'r ymatebion a dderbyniwyd, mae'n eithaf amlwg bod diffyg preswylwyr lleol sydd o blaid system Unffordd barhaol. Ni fydd y cynnig unffordd yn mynd yn ei flaen, mae cynigion eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ar y cyd â Chynghorwyr lleol. Cynhelir ymgynghoriad newydd yn fuan.

### Materion yn ymwneud â'r Sefyllfa Barcio Gyfredol

*“mae'r rhan leiaf o rieni wedi parcio, gan gynnwys: parcio ar linellau igam ogam, cyferbyn â gatiau ysgol a hyd yn oed ar y palmant.”*

*“Ar hyn o bryd ni all unrhyw un stopio gyrrwyr rhag parcio ar linellau melyn sengl a llinellau melyn dwbl!”*

*“Rwy'n gofyn i chi ymweld â'r ysgol am 08:45 (ddim gan wisgo siaced lachar) a gwyllo'r rhieni sy'n parcio'n amlwg ar y llinellau igam-ogam y tu allan i gât yr ysgol. Does dim ots ganddynt am unrhyw un arall, dim ond eu hunain”*

*“Gyda'r holl fesurau diogelwch newydd nid oes sôn am fynd i'r afael ag ymddygiad parcio drwg llawer o rieni sy'n parcio ar linellau melyn dwbl a phalmentydd gan rwystro tramwyfeydd a modurdai preswylwyr.”*

*“RHIENI'N MEWN CEIR YN MYND AR Y PALMANT HEB OFAL DYLDADWY – naill ai i barcio yno neu i basio cerbyd arall, gan arwain at lawer o feddiannau agos”*

*“RHIENI’N PARCIO AR Y PALMENTYDD, sy’n golygu bod angen i gerddwyr gerdded ar y ffordd er mwyn pasio”*

*“RHIENI’N PARCIO AR GORNELI AC AR LINELLAU MELYN DWBL, gan achosi llai o welededd i gerddwyr sydd angen croesi’r ffordd a cheir yn ceisio tynnu allan o gyffyrdd, a hefyd yn blocio palmentydd isel sy’n galluogi pobl mewn cadeiriau olwyn / gyda chadeiriau gwthio / ar sgwteri / gyda chŵn tywys i groesi’r ffordd.”*

*“MAE’R LLINELLAU MELYN DWBL YN OAKDENE CLOSE A CEFN COED AVENUE YN CAEL EU HANWYBYDDU’N GYSON.”*

Mae cynigion eraill ar gyfer y Parth Diogelwch Ysgol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn dilyn trafodaethau gyda Chynghorwyr Lleol. Cynhelir ymgynghoriad newydd ar y cynigion diwygiedig yn fuan.

Bydd y cynigion newydd yn cynnwys cyfyngiadau parcio ychwanegol, diogelu cyffyrdd a chyfyngiadau llwytho yn ystod oriau ysgol. Gorfodir y cyfyngiadau hyn gan Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gyflwyno bolardiau ar y troedffyrdd i ddileu’r parcio rhwystrol arnynt.

#### Materion yn ymwneud â pharcio i ‘breswylwyr yn unig’

*“Hoffwn i wneud cais am ardal ‘parcio i breswylwyr’ i’r eiddo”*

*“PARCIO I BRESWYLWYR YN UNIG O 8.15AM TAN 9.15AM A 3 PM TAN 4 PM YN YSTOD Y TYMOR YSGOL. TRWYDDEDAU I GAEL EU CYHOEDDI I BRESWYLWYR.”*

*“Byddwn yn gofyn felly bod parcio â thrwyddedau i breswylwyr yn unig yn cael ei orfodi,”*

*“Fyddai’r Cyngor yn ystyried gwneud yr ardal o gyffordd Cefn Coed Ave / Hunters Ridge i gyffordd Cefn Coed Ave /Oakdene Close (tuag at yr ysgol) yn un Mynediad yn Unig neu Barcio i Breswylwyr yn Unig.”*

Rydym yn gwerthfawrogi y gall preswylwyr ddymuno lleihau traffig a lefelau parcio yn yr ardal hon trwy roi Gorchymyn “Mynediad yn Unig” ar waith, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae’r Prif Gwnstabl wedi dweud na fyddai modd i’r Heddlu gefnogi Gorchymynion traffig o’r fath oherwydd trafferth eu gorfodi gyda’u hadnoddau staff cyfredol. Oherwydd hynny, ni roddir cyfyngiadau “Mynediad yn Unig” ar waith gan y Cyngor Sir.

Diben cynlluniau parcio i breswylwyr yn unig y mae’r Cyngor yn eu rhoi ar waith yw cadw cyfran o le ar y ffordd i breswylwyr ei ddefnyddio’n unig lle bod amodau parcio yn benodol gwael, ni chânt eu defnyddio fel mecanwaith i ddileu’r holl barcio amhreswyl o stryd benodol. Hefyd, nid yw ein Polisi cyfredol yn berthnasol i leoliadau lle bo parcio ar y stryd ar gael i breswylwyr.

## Materion yn ymwneud â pharth 20mya

*“Rwy’n canmol yr awgrym i roi cyfyngiad cyflymder 20mya ar waith. Oes modd ei leihau’n fwy?”*

*“Popeth yn iawn gyda’r syniad o roi cyfyngiad 20mya ar waith, ond nid cyflymder yw’r brif broblem. Felly, mae gosod rhwystrau ymwithiol dyrchafedig yn ddiangen.”*

*“Rwy’n meddwl y bydd y 20mya a’r croesfannau sebra yn ei gwneud yn ddiogelach i gerdded/beicio i’r ysgol.”*

*“Cyfyngiad 20mya ar y ffyrdd arfaethedig, ac eithrio Celyn Avenue a Cefn Coed Road.”*

*“Rwy’n meddwl bod y rhan fwyaf o breswylwyr yn dueddol o yrru ar lai na 20mya ta beth”*

*“Rwy’n cytuno gyda’r cynnig arfaethedig i osod croesfannau sebra amrywiol a rhoi cyfyngiad 20mya ar waith ar Winnipeg Drive.”*

*“Mae cyfyngiad 20mya’n angenrheidiol ac mae’n rhaid ei orfodi, rydym eisoes yn gweld llawer o gerbydau’n goryrru a meddiannau agos.”*

Yn rhan o’r project hwn, rydym yn cynnig cyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya ar ffyrdd sy’n gyfagos â’r ysgol h.y. Ontario Way, Winnipeg Drive a Woolaston Avenue. Caiff cyfyngiad cyflymder o 20mya ar gyfer y ffyrdd cyfagos, gan gynnwys Lakeside Drive a Celyn Avenue, ei ystyried yn rhan o’r dull strategol o newid cyfyngiadau cyflymderau yng Nghaerdydd.

Mae’r Cyngor wrthi’n rhoi cyfyngiadau cyflymder o 20mya ar waith yng Nghaerdydd, mae’r rhain yn rhan o ddull strategol o newid cyfyngiadau cyflymderau. Os bydd arian ar gael, caiff y cynlluniau ardal 20mya eu rhoi ar waith dros nifer o flynyddoedd, gan ddechrau’n gyntaf yn yr ardaloedd i’r de o’r A48 gan symud yn raddol allan o’r ddinas. Wedi cwblhau mesurau yn ardaloedd deheuol yr A48 bydd y Cyngor wedyn yn ystyried y dull gorau ar gyfer ardaloedd mewn rhannau o’r ddinas gan gynnwys Cyncoed.

## Materion yn ymwneud â’r Llwybr yn y Goedwig Ddarganfod

*“Llwybr pob tywydd dyrchafedig trwy’r goedwig ym mhob cyfeiriad i’w gysylltu ynghyd gyda goleuadau stryd ar gyfer misoedd y gaeaf a’r coed wedi’u tocio i’w gwneud yn ddiogelach gan fod llawer o’r canghennau’n cwmpo pan fo’r gwynt yn gryf”*

*“Mae croesfan sebra ar Wollaston Av rhwng yr ysgol a llwybr trwy’r Goedwig Ddarganfod – mae hyn yn wych. Ar y cyd â hyn, allwn ni ofyn i lwybr y coetir gael ei ail-rutio.”*

*“Rhoi tarmac neu arwyneb caled arall ar y llwybr i gerddwyr trwy'r goedwig y tu ôl i'r Discovery Pub. Mae'r llwybr hwn yn cael ei osgoi gan rieni pan fo'r tywydd yn wlyb (yn y rhan fwyaf o'r gwanwyn, yr hydref a'r gaeaf) gan ei fod yn rhy wlyb a mwdlyd.”*

*“Gosod llwybr pob tywydd trwy'r Goedwig Ddarganfod i annog mwy o bobl i allu cerdded, yn benodol pan fo'r tywydd yn wlyb.”*

Rydym wrthi'n ymgynghori â chydweithwyr yn ein tîm Parciau ynghylch uwchraddio'r llwybr. Ar yr amod y cânt eu cymeradwyo, rydym yn gobeithio gwneud gwelliannau i'r llwybr cyfredol yn rhan o'r Cynllun Teithio Llesol.

### Cefnogaeth dros y cynllun

*“Ynghylch y mesurau arafu traffig ar Ontario Way, Lakeside. Mae'r cynigion yn edrych yn wych. Diolch am gymryd camau tuag at wella'r tagfeydd a'i gwneud yn ddiogelach i'r plant.”*

*“Gallaf weld manteision cyflwyno system unffordd heibio i'r ysgol gynradd ar Ontario Way yn ystod oriau ysgol, yn benodol yn y bore pan fo plant yn cael eu gollwng ac yn y prynhawn pan fo plant yn cael eu casglu. Fodd bynnag, dim ond yn ystod oriau ysgol y bydd y system hon o fudd.”*

*“Felly, yn gyffredinol rwyf o blaid y cynllun arfaethedig a fydd yn fy marn i o fudd i blant Ysgol Gynradd Lakeside ac Ysgol Uwchradd Caerdydd, eu rhieni, athrawon a phreswylwyr agored i niwed lleol.”*

*“Rydym o blaid y system unffordd arfaethedig, ond gallwn hefyd weld y gallai system unffordd o gyffordd Ontario Way i fyny Woolaston Avenue i'r gyffordd â Winnipeg Drive arafu traffig hefyd.”*


*“Fel rhywun sy'n byw ar Woolaston Avenue ac yn rhiant plentyn yn yr ysgol, rwy'n gefnogol iawn o amcanion hollgyffredinol y cynllun arfaethedig”*

*“Ni allaf ddiolch i chi ddigon am roi'r project diogelwch hwn ar waith.”*

*“Cyfyngiadau cyflymder 20MYA – Rwy'n **CEFNOGI'R** cynnig hwn.*  
*er fy mod yn amau y caiff ei ddilyn gan nad yw'n ymddangos bod rhieni'n dilyn y mesurau ac rwy'n credu bod angen iddynt gael eu plismona / gorfodi.*

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, NID YW'R Cyngor bellach yn cynnig gweithredu'r cynllun a welir. (Efallai y caiff cynigion diwygiedig eu cyflwyno cyn hir.)

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is NO LONGER proposing to implement the scheme shown. (Revised proposals may be presented in due course.)

Further details about this consultation are available at [cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link.